

MYNEGAI

	Tudalen
Rhagair gan y Cynghorydd Peredur Jenkins	1
Cyllideb Gweithwyr 2014/2015	5
Y Gyllideb Refeniw 2014/2015	
Crynodeb	6
Adnoddau Dynol	8
Addysg <i>(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgorau)</i>	10
Cyllid	28
Democratiaeth a Chyfreithiol	30
Economi a Chymuned	32
Oedolion, Iechyd a Llesiant	43
Plant a Theuluoedd	54
Priffyrdd a Bwrdeistrefol (Gan gynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru)	58
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth, Eiddo a Gwarchod y Cyhoedd) <i>(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgor)</i>	64
Strategol a Gwella	69
Tim Rheoli Corfforaethol	71
Ymgynghoriaeth Gwynedd Corfforaethol	73
Corfforaethol	75
Y Gyllideb Gyfalaf 2014/2015	77

Cyngor Gwynedd

Cyllideb 2014/15

Rhagair gan y Cynghorydd Peredur Jenkins Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid

1 Rhagarweiniad

- 1.1 Sefydlwyd y gyllideb ar gyfer 2014/15 mewn hinsawdd hynod o anodd ar gyfer pob cyngor yng Nghymru wrth i bolisi Llywodraeth San Steffan o leihau gwariant cyhoeddus frathu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ac wrth iddynt hwy yn eu tro flaenoriaethau'r adnodd hynny sydd ar gael iddynt.
- 1.2 Yn ei hanfod mae cyllid llywodraeth leol yn fater syml : daw ein hincwm o ddwy brif ffynhonnell, sef grant a gawn gan y llywodraeth (sy'n cynrychioli tua 77% o'n hincwm) a'r Dreth Gyngor (sy'n cynrychioli tua 23% ohono) ac mae'n rhaid i ni gadw ein gwariant o fewn y ffiniau yma.
- 1.3 Mae'r sefyllfa sy'n ein hwynebu am y blynyddoedd i ddod yn un tywyll dros ben gyda gostyngiadau sylweddol yn ein grant ar gyfer 2014/15 a 2015/16 yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ond gyda rhagolygon y byddwn yn gweld gostyngiadau pellach os ystyrir yr hyn sydd yn Natganiad Hydrefol y Canghellor.
- 1.4 Yn unol â threfniadau cynllunio ariannol cadarn y Cyngor 'rydym wedi bod yn paratoi ers cryn amser ar gyfer cyfnod estynedig o leihad ariannol ac o fod wedi gwneud hynny, 'rydym mewn sefyllfa yn 2014/15 o beidio â gorfod rhuthro i ddarganfod arbedion. Golyga hyn na fyddwn yn gorfod gwneud penderfyniadau brysiog a thrwy hynny yn gweld ein hunain yn gorfod gwneud toriadau yn y lleoedd hynny sydd am gael effaith andwyol ar bobl Gwynedd.
- 1.5 Wedi dweud hynny, rhaid defnyddio'r flwyddyn yma i baratoi cynlluniau cadarn ar gyfer y blynyddoedd i ddod fel ein bod mewn sefyllfa i barhau i warchod pobl Gwynedd rhag effeithiau mwyaf andwyol y gostyngiadau cyllidol yr ydym yn eu hwynebu.
- 1.6 Gellir crynhoi'r sefyllfa yr ydym yn ei thaflunio ar gyfer y cyfnod i ddod fel a ganlyn –

Tafluniad cynllunio ariannol ar gyfer y 4 blynedd 2014/15 - 2017/18

£M	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	Cyfanswm
Gofynion Gwario ychwanegol	5.2	7.7	10.2	6.7	29.8
Colled (cynnydd) grant	8.1	4.4	3.5	6.1	22.1
Treth Gyngor (*)	(2.9)	(1.8)	(1.9)	(2.0)	(8.6)
Diffyg Cynlluniedig	10.4	10.3	11.8	10.8	43.3
Addasiadau cyllidebol	(3.1)				(3.1)
Cynlluniau Rhaglen bresennol	(5.5)	(0.7)	(0.2)		(6.4)
Defnydd balansau a blaen arbedion	(1.8)	1.8			-
I'w ddarganfod -	(-)	11.4	11.6	10.8	33.8

- 1.7 Fe welir ein bod yn taflunio ar gyfer posibilrwydd o fod yn wynebu bwlch ariannol tybiedig dros y 4 blynedd o dros £50m ond hyd yn oed ar ôl rhagdybio cynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.5% ar gyfartaledd bob blwyddyn a defnyddio arbedion sydd gennym eisoes ar y gweill, byddwn yn parhau i fod angen darganfod tua £34m o arbedion. Mater i'r Cyngor wrth gwrs fydd penderfynu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor ymhob blwyddyn pan fyddwn yn ystyried y gyllideb.
- 1.8 Mae ein strategaeth i ddarganfod arbedion hyd yma wedi bod yn seiliedig ar ddarganfod cymaint ag y gallwn o arbedion effeithlonrwydd (hynny yw cyflawni'r un canlyniadau i drigolion am gost is) a byddwn yn parhau i fynd ar ôl cyfleon o'r fath, gan atgyfnerthu hyn drwy geisio rheoli galw am ein gwasanaethau.
- 1.9 Wrth geisio darganfod cymaint ag y gallwn drwy'r dull yma y gobaith yw y byddwn yn lleihau'r angen am doriadau a thrwy hynny, yn lleihau'r ardrawiad cymaint ag sy'n bosibl ar drigolion Gwynedd.

2. Incwm Grant gan Lywodraeth Cymru

- 2.1 Fel y nodir uchod, daw tua 77% o incwm y Cyngor o grant Llywodraeth Cymru ac ar gyfer 2014/15 bydd yn lleihau o £183.04m i £174.97m.
- 2.2 Mae'r gostyngiad yma o 4.4% yn ostyngiad sylweddol - llawer gwaeth nag unrhyw beth a welwyd o'r blaen yn oes Cyngor Gwynedd.

3 Nodweddion Allweddol Cyllideb Cyngor Gwynedd ar gyfer 2014/15

- 3.1 Cyfrifwyd ein bod angen cynnydd o £2.9m yn 2014/15 er mwyn cwrdd â chwyddiant. Mae hyn yn gyfystyr a chynnydd o 1.3%.
- 3.2 Ar ben hyn, cyfrifwyd fod angen £2.1m i gwrdd â phwysau ar wasanaethau, yn arbennig ym maes gofal cymdeithasol; cludiant ysgolion; cwrdd â chostau ychwanegol y strategaeth wastraff ynghyd â

chyfarch gostyngiadau angenrheidiol mewn rhai cyllidebau incwm a welwyd yn sgil effaith y sefyllfa economaidd yn gyffredinol.

- 3.3 Yn 2014/15, yn annisgwyl, fe welodd y sector ysgolion uwchradd grantiau a dderbyniwyd Lywodraeth Cymru yn cael eu lleihau'n sylweddol ac yn sgil hyn fe benderfynodd y Cabinet y dylid helpu'r sector ddygymod gyda'r golled drwy ddarparu cymorth o £250,000 o falansau'r Cyngor. Gyda'r ffigyrau chwyddiant a nodir uchod, 'roedd modd felly i'r cyngor gadw at yr addewid cyllido ysgolion a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau fod ysgolion yn gweld cynnydd yn eu cyllidebau sydd 1% yn uwch na'r adnodd y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn.
- 3.4 Bu modd gwneud hyn er gwaethaf y ffaith fod y Cyngor yn colli £8.1m o grant ond mae'n amheus iawn a fydd hyn yn gynaliadwy yn y dyfodol.
- 3.5 Ar ben hyn, penderfynwyd y dylid symud yn agosach at dalu cyflog byw i'r rhai hynny sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor ar y cyflogau isaf ar gost o £0.2m gan godi'r dreth gyngor yn benodol er mwyn gwneud hynny.
- 3.6 Golyga hyn felly ein bod wedi cyfrifo fod angen £5.2m yn 2014/15 uwchben cyllideb 2013/14 ac o ychwanegu'r gostyngiad grant o £8.1m, golyga hynny ein bod yn wynebu diffyg o £13.3m yn 2014/15.
- 3.7 Er mwyn cadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor o fewn ffiniau rhesymol, sicrhau ein bod yn medru parhau i gyfarch anghenion ein trigolion, a thalu am symud tuag at gyflog byw, penderfynodd y Cyngor ar gynnydd o 3.9% fyddai'n cynhyrchu £2.1m ychwanegol. Fodd bynnag 'roedd modd hefyd cynyddu'r gyfradd casglu a ddefnyddir i gyfrifo incwm y Dreth Gyngor (yn sgil y ffaith nad oedd y gostyngiad a ragwelwyd y llynedd oherwydd newidiadau yn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am ddigwydd) fyddai'n ychwanegu £0.8m at y swm yma.
- 3.8 Byddwn yn dileu rhai cyllidebau canolog a sefydlwyd er mwyn gwarchod rhag risgiau y gallasai'r Cyngor eu hwynebu ac i gyfarch anghenion gwariant parhaol o fewn y Cynllun Strategol fydd yn lleihau'r gofynion o £3.1m, a'r bwriad yw cwrdd â £5.5m o'r bwlch gweddilliol o'r rhaglen arbedion sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan y Cyngor.
- 3.9 Trwy ddefnyddio £1.8m o falansau wedyn, gellir bod yn hyderus y byddwn yn medru wynebu sefyllfa gyllidol 2014/15 heb amharu'n ormodol ar wasanaethau i drigolion ac er mwyn prynu amser i ni fedru dod i gasgliadau ar sut i gwrdd â'r bwlch hirdymor sydd o'n blaenau.

- 3.10 Gosodwyd targedau ar gyfer darganfod arbedion effeithlonrwydd / rheoli galw ar gyfer pob gwasanaeth eisoes, gan ofyn iddynt lunio eu cynlluniau ar gyfer gwireddu'r targedau hynny erbyn diwedd Mai.
- 3.11 Yn y pen draw fodd bynnag, bydd rhyw elfen o doriadau yn anorfod a byddwn yn llunio trefn gynhwysol ar gyfer dod i gasgliad ar flaenoriaethau'r Cyngor yn ystod hanner cyntaf 2014/15.
- 3.12 O ran y rhaglen gyfalaf, 'rydym wedi cadw'n fras at y rhaglen gyfalaf a osodwyd y llynedd ar gyfer 2014/15 a 2015/16 yn seiliedig ar y Strategaeth Asedau 10 mlynedd ond gan nodi y bydd yn rhaid ail ymweld â'r strategaeth honno yn fuan yn 2014/15. Fe geir manylion y rhaglen gyfalaf yn y llyfr cyllideb yma.

4 Y Dreth Gyngor

- 4.1 Ar gyfer 2014/15, £41.71 (neu 80c yr wythnos) yw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer gwasanaethau Cyngor Gwynedd ar gyfer eiddo ym Mand D sy'n cyfateb i gynnydd o 3.9%.
- 4.2 Mae'r cynnydd o 3.9% yn cyfateb i'r pumed isaf o'r 22 awdurdod ar draws Cymru ac yn cymharu gyda chyfartaledd Cymru o 4.2%.
- 4.3 Nodir isod gymhariaeth Treth Gyngor Band D gyda ffigyrau llynedd.

TRETH CYNGOR BAND D			
	2013/14	2014/15	Cynnydd
	£	£	£
Cyngor Gwynedd	1,069.36	1,111.07	41.71 (3.9%)
Heddlu Gogledd Cymru	223.11	227.61	4.50 (2.0%)
Cynghorau Cymuned	30.82	32.18	1.36 (4.4%)
Cyfanswm	1,323.29	1,370.86	47.57 (3.6%)

CYLLIDEB GWEITHWYR 2014/2015

	Llawn Amser	Rhan Amser
Adnoddau Dynol	76	7
Addysg <i>(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgorau)</i>		
- Athrawon	889	266
- Eraill	133	1,983
- GwE	41	0
- Cyd-bwyllgor ADY	11	20
Cyllid	191	25
Democratiaeth a Chyfreithiol	35	17
Economi a Chymuned	206	378
Oedolion, Iechyd a Llesiant	484	639
Plant a Theuluoedd	155	189
Priffyrdd a Bwrdeistrefol :-		
- Yr Adran	556	103
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	96	4
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) <i>(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgor)</i>	189	172
Strategol a Gwella	69	10
Tim Rheoli Corfforaethol	7	1
Ymgynghoriaeth Gwynedd	120	5
Cyfanswm	<u><u>3,258</u></u>	<u><u>3,819</u></u>

Y GYLLIDEB REFENIW 2014/2015

Mae'r tudalennau canlynol cynnwys gwariant y gwahanol adrannau yn 2014/2015.

Mae cyllidebau'r gwasanaethau yn cynnwys dyraniad o gostau'r Gwasanaethau Cefnogol Canolog, a Chostau Cyfalaf. Cyfrifwyd y Costau Cyfalaf yn unol â chanllawiau CIPFA, ac fe osodir hwynt yn erbyn gwir gostau Ariannu Cyfalaf yn y gyllideb gorfforaethol. Nid yw'r system Costau Cyfalaf yn cael effaith ar Wariant Net yr Awdurdod.

Rhoddir disgrifiad byr o ddarpariaeth gwasanaeth hefyd.

CRYNODEB


	£'000
Gwariant Gros - Adrannau	370,695
Llai - Grantiau'r Llywodraeth, Cyfraniadau	86,382
- Incwm Arall	50,379
	233,934

GWARIANT YR ADRANNAU

	Gros £'000	%	Net £'000	%
Adnoddau Dynol	289	0.08	191	0.08
Addysg <i>(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgorau)</i>	113,264	30.55	88,984	38.04
Cyllid	3,592	0.97	1,403	0.60
Democratiaeth a Chyfreithiol	1,240	0.33	623	0.27
Economi a Chymuned	21,148	5.70	12,703	5.43
Oedolion, Iechyd a Llesiant	71,191	19.20	49,614	21.21
Plant a Theuluoedd	17,922	4.83	14,479	6.19
Priffyrdd a Bwrdeistrefol (Gan gynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru)	56,466	15.23	26,298	11.24
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) <i>(Gan gynnwys trefniant Cyd-bwyllgor)</i>	19,622	5.29	11,262	4.81
Strategol a Gwella	3,311	0.89	757	0.32
Tim Rheoli Corfforaethol	178	0.05	135	0.06
Ymgynghoriaeth Gwynedd	6,859	1.85	1,124	0.48
Corfforaethol - Budd-daliadau	37,333	10.07	9,551	4.08
Corfforaethol - Eraill	18,280	4.93	16,810	7.19
	370,695	100.00	233,934	100.00

Gwariant Gros


AR BETH Y GWERIR YR ARIAN - £371 miliwn



- GWEITHWYR £179.2m
- ADEILADAU £14.5m
- CLUDIANT £10.9m
- CYFLENWADAU A GWASANAETHAU £59.9m
- TALIADAU I GYRFF ERAILL £53.9m
- GWARIANT ARALL, GRANTIAU, COSTAU DYLED AC ATI £52.3m

Incwm

O BLE Y DAW YR ARIAN - £371 miliwn



- GWERTHIANNAU, FFIOEDD, CYFRANIADAU AC ATI £50.4m
- GRANTIAU A THALIADAU ERAILL Y LLYWODRAETH £86.4m
- GRANT BLOC £136.0m
- TRETH Y CYNGOR £56.7m
- CRONFA'R DRETH ANNOMESTIG GENEDLAETHOL £39.0m
- BALANSAU A CHRONFEYDD £2.2m

ADNODDAU DYNOL

**Cyllideb
2014/15
£'000**

ADNODDAU DYNOL

Rheolaeth	Gwariant	469	Cyfrifoldeb am ffurfio a gweithredu polisïau staff a phersonél ac hyfforddi staff gan gydbblethu'r rhain gyda strategaethau ehangach y Cyngor
Polisi Adnoddau Dynol	Gwariant	209	Nifer o staff yng nghyllideb 2014/2015: Llawn amser: 62 Rhan Amser: 6
Gwasanaeth Personel	Gwariant	824	
Iechyd a Diogelwch	Gwariant	380	
Hyfforddiant Symud a Thrin	Gwariant	99	
Gweithio'n Unigol	Gwariant	17	
Ysgrifennydd Unsain	Gwariant	36	
Gwasanaeth Cefnogol	Gwariant	864	
Cefnogol (Arlwyaeth, Glanhau a Gofal Cartref)	Gwariant	157	
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(2,995)	
	Incwm	(60)	
		<u>0</u>	
Hyfforddiant Canolog	Gwariant	739	Hyfforddi a datblygu staff y Cyngor gan gyflogi 9 o Hyfforddeion Graddedig.
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(546)	Nifer o staff yng nghyllideb 2014/2015:
	Incwm	(2)	Llawn amser: 14 Rhan Amser: 1
		<u>191</u>	
CYFANSWM NET ADNODDAU DYNOL		<u><u>191</u></u>	

ADNODDAU DYNOL

EITEMAU MEMORANDWM

Ad-daliadau Gwasanaethau

734

Ad-daliadau o gostau Adrannau, Adeiladau a Teleffon

CRYNODEB ADNODDAU DYNOL

Cyfanswm Gwariant	3,794
Cyfanswm Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(3,540)
Cyfanswm Incwm	(63)
Gwariant Net	<u>191</u>

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

Cyllideb wedi ei ddatganoli i'r ysgolion. Rheolir gan Cyrff Llywodraethwyr Ysgolion.

Caiff y gyllideb ei ddyrannu i'r ysgolion yn ôl fformiwla.

CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION

Ysgolion Cynradd	Gwariant	35,534	Ysgolion Cynradd	
	Incwm	(26)	Nifer o Ysgolion	97
	Incwm - Ad-daliadau	0	Nifer y Disgyblion (c.l.a)	9,207
		<u>35,508</u>	Nifer yr Athrawon (tybiannol)	411
			Nifer Staff Cefnogol:	
			Llawn Amser:	0
			Rhan Amser:	429
			Cymhareb Disgybl/Athro	22.4:1
			Unedau Meithrin	88
Ysgolion Uwchradd	Gwariant	34,397	Ysgolion Uwchradd	
	Incwm	(1,454)	Nifer o Ysgolion	14
	Incwm Grant ôl 16	(2,986)	Nifer y Disgyblion	6,403 (Heb gynnwys chweched dosbarth)
	Incwm - Ad-daliadau	0	Nifer yr Athrawon (tybiannol)	397
		<u>29,957</u>	Nifer Staff Cefnogol:	
			Llawn Amser:	60
			Rhan Amser:	185
			Cymhareb Disgybl/Athro	16.13:1
			Unedau Arbennig	1
Ysgolion Arbennig	Gwariant	2,157	Ysgolion Arbennig	
	Incwm	(1)	Nifer o Ysgolion	2
	Incwm - Ad-daliadau	0	Nifer o Leoedd	127
		<u>2,156</u>	Nifer yr Athrawon (tybiannol)	18
			Nifer Staff Cefnogol:	
			Llawn Amser:	0
			Rhan Amser:	53
CYFANSWM - CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION		<u><u>67,621</u></u>		
(ISB UNIONGYRCHOL)				

ADDYSG

**Cyllideb
2014/15
£'000**

CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB) CANOLIG

Ysgolion wedi cau	Gwariant	70	Rhan o arbedion cau ysgol er mwyn ariannu costau cynnal safleoedd gwag nes eu gwaredu a cyfraniad at darged arbedion arlwyath.	
	Incwm	0		
	Incwm - Ad-daliadau	0		
		<u>70</u>		
Uned Cynhwysiad	Gwariant	643	Tîm athrawon arbenigol gwybodaeth a dysgu ar draws y sir. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>	
	Incwm	0		Llawn Amser: 10
	Incwm - Ad-daliadau	(625)		Rhan Amser: 5
		<u>18</u>		
Strategaeth Cynhwysiad	Gwariant	812	Cefnogaeth i ddisgyblion bregus o fewn ysgolion prif lif. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>	
	Incwm	0		Llawn Amser: 11
	Incwm - Ad-daliadau	0		Rhan Amser: 16
		<u>812</u>		
Cronfa Lleihau Maint Dosbarthiadau CA2	Gwariant	319	Darpariaeth staffio ychwanegol i gefnogi disgyblion a lleihau maint y dosbarthiadau. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>	
	Incwm	0		Llawn Amser: 3
	Incwm - Ad-daliadau	0		Rhan Amser: 12
		<u>319</u>		
Codi Safonau CA3	Gwariant	192	Trosglwyddo cyllid i Ysgolion Uwchradd unigol ar gyfer Codi Safonau CA3.	
	Incwm	0		
	Incwm - Ad-daliadau	0		
		<u>192</u>		
Datblygu Cwricwlwm Amgen	Gwariant	142	Trosglwyddo cyllid i Ysgolion Uwchradd unigol ar gyfer datblygu cwricwlwm amgen.	
	Incwm	0		
	Incwm - Ad-daliadau	0		
		<u>142</u>		

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB) CANOLIG

(Parhad)

Neuadd Chwaraeon Blaenau Ffestiniog	Gwariant	69	Cyfraniad Hamdden i Ysgol y Moelwyn ar gyfer rhedeg y neuadd chwaraeon.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>69</u>	
Y Cyfnod Sylfaen (yr elfen ddatganoledig)	Gwariant	3,701	Grant Llywodraeth Cymru yn cyfuno plant oed 3-7 sef Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol
	Incwm	(3,701)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
Arian Wrth Gefn Ysgolion (yr elfen ddatganoledig)	Gwariant	474	Darpariaeth yn cynnwys:- £250,000 unwaith ac am byth i Ysgolion Uwchradd penodol ar gyfer amddiffyn safonau, £139,000 tuag at cost dileu pwynt 5 a 6 o'r raddfa cyflog ac £85,000 i gwrdd ag amgylchiadau penodol arbennig mewn ysgolion
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>474</u>	
Ail-strwythuro Cyflogau Athrawon	Gwariant	42	Darpariaeth ar gyfer athrawon cynradd yn symud i UPS1 ym mis Medi i'w ddatganoli i ysgolion yn ystod y flwyddyn, fel bo'r angen.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>42</u>	
Ysgolion Iach	Gwariant	35	Darpariaeth ar gynllun ysgolion iach, trwy sefydlu cysylltiadau gyda'r cartref, y gymuned fel elfen a gwasanaethau arbenigol perthnasol.
	Incwm	(35)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB) CANOLIG

(Parhad)

Grant Ysgolion Ffocws Cymunedol/Gofal Plant	Gwariant	88	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu strategaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, hanfodol o Strategaeth Tlodi Plant.
	Incwm	(88)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		0	
Integreiddio	Gwariant	149	Darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd yn destun Datganiad - gweler pennawd arall
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		149	
Biwro Troseddau	Gwariant	84	Cyllideb i sicrhau bod gan pob gweithiwr ysgol DBS cyfredol.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		84	
Grant y Gymraeg Mewn Addysg (yr elfen ddatganoledig)	Gwariant	638	Grant Llywodraeth Cymru a ddefnyddir i ddarparu cyrsiau dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr ac i athrawon.
	Incwm	(471)	Darperir cyllid am 5 Canolfan Iaith ynghyd â Chyd-gysylltwyr iaith oddi fewn yr 13 dalgylch.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		167	
Grant Effeithlonrwydd Ysgolion - GEY (yr elfen ddatganoledig)	Gwariant	1,233	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi ac hyrwyddo datblygiadau cenedlaethol, a blaenoriaethu ar egwyddorion y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion a'r Strategaeth Tlodi Plant - sef Rhifedd, Llythrennedd a Chau'r Bwlch.
	Incwm	(1,175)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		58	
Technoleg Gwybodaeth Ysgolion	Gwariant	376	Cyllideb ar gyfer mynediad band llydan i ysgolion.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		376	
Grant Amddifadedd y Cynulliad			
Ysgolion Cynradd	Gwariant	995	Grant Llywodraeth Cymru i ysgolion wedi'i dargedu at helpu disgyblion o gefndir difreintiedig i gyflawni eu potensial ac i gyfrannu yn y ffordd orau bosibl at gymdeithas a'r economi.
Ysgolion Uwchradd	Gwariant	743	
Ysgolion Arbennig	Gwariant	22	
	Incwm	(1,760)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		(0)	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

**CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB) CANOLIG
(Parhad)**

Brecwast am Ddim	Gwariant	550	Darpariaeth brecwast ar gyfer i 74 ysgol cynradd y Sir.
	Incwm	0	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Rhan Amser: 250
		<u>550</u>	
Band 4 a 5 - Ysgolion Gwynedd	Gwariant	20	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer codi safonau i'r ysgolion hynny sydd wedi ei adnabod
	Incwm	(20)	ym Mand 4 a 5.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
Grant LAC/ PMG - Plant Mewn Gofal	Gwariant	119	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer targedu plant bregus.
	Incwm	(119)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
Grant Presenoldeb Ysgolion	Gwariant	12	Grant Llywodraeth Cymru i wella presenoldeb ysgolion, gosod dyheadau uchel o ran
	Incwm	(12)	presenoldeb o sefydlu tîm o arbenigwyr i rhoi cyngor da i ysgolion
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
Grant Pathfinder	Gwariant	48	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol i weithio
	Incwm	(48)	gyda'u hyssgol ddatblygol a barwyd i ledaenu a gweithredu arferion da.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	
Grant LiDW - PSBA Circuits [Gwynedd]	Gwariant	383	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cysylltedd ddigidol ar draws ysgolion Cymru,
	Incwm	(383)	yn benodol i gryfhau cyflymder rhwydwaith a'r ddarpariaeth di-wifr.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

**CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB) CANOLIG
(Parhad)**

Grant LiDW - DPP [Consortia]	Gwariant	4	Grant Llywodraeth Cymru i ysgolion gefnogi defnydd Hwb+ mewn dysgu ac addysgu.
	Incwm	(4)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		0	
		<hr/>	
Grant CPCP (NPQH) [Consortia]	Gwariant	5	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol Prifathrawiaeth.
	Incwm	(5)	Mae'r CPCP yn cymhwyster mi pob athro sydd a'i bryd ar fod yn bennaeth.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		0	
		<hr/>	
Rhwydwaith 14 -19	Gwariant	294	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo partneriaeth 14-19 i roi sylw i hyblygrwydd
	Incwm	(294)	cwricwlwm / sgiliau.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		0	
		<hr/>	
CYFANSWM - CYLLIDEB YSGOLION UNIGOL (ISB) CANOLIG		3,522	
		<hr/>	
CYFANSWM - CYLLIDEB YSGOLION UNIGOL - (ISB)		71,143	
		<hr/>	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)

Cludiant - Disgyblion a Myfyrwyr	Gwariant	4,723	Darpariaeth ar gyfer cyfrifoldeb i drefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol / coleg yn unol a
	Costau Canolog	54	
	Incwm	(217)	gofynion statudol a pholisïau cyfredol. Darperir cludiant trwy ddefnyddio
	Incwm - Ad-daliadau	0	contractau cludiant cyhoeddus a chontractau penodol gan ddefnyddio bysiau
		<u>4,560</u>	a thacsis.
			<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
			Rhan Amser: 1
Grwpiau Strategol a Fforymau	Gwariant	15	Darpariaeth ar gyfer galw cyfarfodydd strategol a fforymau y gwasanaeth.
	Costau Canolog	0	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>15</u>	
Ymdeoliadau Cynnar Athrawon	Gwariant	264	Cronfa ar gyfer costau ymdeol cynnar gwirfoddol hanesyddol athrawon er mwyn
	Costau Canolog	3	osgoi diswyddo gormodol.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>267</u>	
Adroddiadau Iechyd a Diogelwch ar offer Addysg Gorfforol	Gwariant	5	Adroddiadau gan arbenigwyr ar gyflwr offer addysg gorfforol yn yr ysgolion.
Credyd Pensiwn Ysgolion	Gwariant Credyd Pensiwnau	(258)	Addasiad technegol cyfrifeg (elfen hanesyddol o cyfraniad pensiwn cyflogwr)
Athrawon Llanw	Gwariant	42	Darpariaeth ar gyfer athrawon llanw oherwydd absenoldebau yn deillio o gyfarfodydd a drefnir gan yr Awdurdod, athrawon yn gweithredu ar Bwyllgorau Addysg, Gwasanaeth Rheithgor a chyfrifoldebau undebol.
Costau Canolog Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig	Costau Canolog	2,025	Costau Canolog ysgolion sef costau gwasanaethau megis cyllid, TGCH, adnoddau dynol, cyfreithiol ac yn y blaen.
Costau Cyfalaf (Dibrisiant)	Gwariant	2,434	Gwir gost yr Adran i ariannu cyfalaf yn y Cyfrif Rheoli Asedau.
Cyd Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)	Gwariant	85	Cyfraniad blynyddol i Cyd Bwyllgor Addysg Cymru trwy gytundeb.
Cynnal a Chadw a Chostau Rhedeg Adeiladau	Gwariant	1,003	Cyllideb ar gyfer cynnal a chadw adeiladau gan gynnwys trethi a rhenti.
	Incwm Rhent	(19)	
	Incwm - Ad-daliadau	(5)	
		<u>979</u>	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)

(Parhad)

Cyrsiau ac Ymweliadau Addysgol	Gwariant	8	Cyrsiau preswyl i ddisgyblion hyn (yn bennaf).
Defnydd Pyllau Nofio gan Ysgolion	Incwm - Ad-daliadau	(19)	Darpariaeth i Adran Economi a Chymuned ar gyfer defnyddio Pyllau Nofio Canolfannau Hamdden
Ymweliadau (Tramor) Ysgolion	Gwariant	6	Cost darparu adroddiadau arbenigol cyn i ysgolion ymweld â gwledydd tramor.
Grantiau Dillad Disgyblion	Gwariant	32	Grantiau i rieni disgyblion Uwchradd blynyddoedd 7, 9 a 11 sydd yn cwrdd â'r meini prawf. Hefyd telir grant i ddisgyblion ôl 16 i deuluoedd sydd yn derbyn Cymorth Incwm.
Grantiau i Fudiadau Allanol	Gwariant	14	Cyfraniadau blynyddol i gyrff allanol sydd yn darparu cyngor neu wasanaeth i ysgolion meis Cymdeithasau Chwaraeon a Mudiad Addysg Cristnogol Cymru
Hyfforddi Llywodraethwyr	Gwariant	6	Darpariaeth ar gyfer y rhaglen i hyfforddi llywodraethwyr. Ariennir un swydd llawn amser o'r Grant GEY
Rheolaeth Fflyd	Gwariant	14	Ffi Adran Amgylchedd am reolaeth fflyd.
Trwyddedau a Thanysgrifiadau ac Adroddiadau	Gwariant	51	Cytundeb rhwng yr Awdurdod a chyrrff allanol am drwyddedau ac yn y blaen.
Yswiriannau	Gwariant	441	Darpariaeth ar gyfer sefydliadau addysgol, staff a llywodraethwyr.
Grant ôl 16 - Incwm	Incwm	(31)	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Ôl 16 mewn ysgolion - elfen canolog.
Integreiddio	Gwariant	1,878	Darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd yn destun Datganiad - rhan CLG yn unig
	Costau Canolog	13	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(1,672)	
		<u>219</u>	
Datganiadau All-Sirol	Gwariant	85	Cyllideb ar gyfer cymorth ychwanegol i blant siroedd eraill ac i blant o Wynedd sydd yn
	Incwm	(85)	mynychu ysgolion tu allan i'r ffin.
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>0</u>	

Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-

Rhan Amser:

262

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)

(Parhad)

Unedau Anhwylderau Iaith	Gwariant	214	Darpariaeth ar gyfer lleoliad mewn 4 uned i ddisgyblion ar gyfer anhwylderau iaith a llefarydd.
	Costau Canolog	4	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/> 218	
			<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
			Llawn Amser: 2
			Rhan Amser: 3
Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion	Gwariant	72	Cyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion.
	Costau Canolog	1	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/> 73	
Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol Dwys Tŷ Aran	Gwariant	100	Darpariaeth ar gyfer costau rhedeg yr Uned Ddwys Tŷ Aran.
	Costau Canolog	2	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/> 102	
			<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
			Llawn Amser: 1
			Rhan Amser: 4
Uned Awtistiaeth	Gwariant	101	Uned arbennig ar gyfer disgyblion cynradd awtistig.
	Costau Canolog	2	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/> 103	
			<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
			Rhan Amser: 6
Rhwydwaith 14 -19	Gwariant	253	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo partneriaeth 14-19 i roi sylw i hyblygrwydd cwricwlwm / sgiliau.
	Costau Canolog	7	
	Incwm	(230)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/> 30	

ADDYSG

**Cyllideb
2014/15
£'000**

**GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)
(Parhad)**

Grant Gwisg Ysgol i Ddisgyblion	Gwariant	23	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer pryniant gwisg ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 7.
	Costau Canolog	0	
	Incwm	(23)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		0	
		<hr/>	
Uned Arbennig Tŷ Meirion	Gwariant	2	Darpariaeth ar gyfer costau ychwanegol Uned Arbennig Tŷ Meirion.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		2	
		<hr/>	
Y Cyfnod Sylfaen (Elfen heb fod yn ISB)	Gwariant	240	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer hyfforddiant a mynediad athrawon y mudiadau meithrin.
	Costau Canolog	54	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Incwm	(240)	Llawn Amser: 3
	Incwm - Ad-daliadau	0	Rhan Amser: 3
		<hr/>	
		54	
		<hr/>	
Gwasanaeth Lles	Gwariant	271	Nod y Gwasanaeth yw galluogi plant a phobl ifanc i elwa'n llawn o'r ddarpariaeth
	Costau Canolog	4	addysgol a gyflwynir gan ysgolion neu 'fel arall'.
	Incwm	0	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	(35)	Llawn Amser: 5
		<hr/>	Rhan Amser: 3
		240	
		<hr/>	

ADDYSG**GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)
(Parhad)****Cyllideb
2014/15
£'000**

Addysg tu allan i'r ysgol	Gwariant	144	Darpariaeth ar gyfer hyfforddiant cartref am absenoldebau megis salwch, gwaharddiadau parhaol a ffobia mynychu ysgol. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 1 Rhan Amser: 5
	Costau Canolog	2	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>146</u>	
Unedau ABC (Asesu Blynyddoedd Cynnar)	Gwariant	144	Darpariaeth ar gyfer 4 Uned Cyn Ysgol i asesu sgiliau i ddisgyblion o oedran cyn-ysgol a gyfeiriwyd gan yr Awdurdod Iechyd. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 3 Rhan Amser: 5
	Costau Canolog	3	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>147</u>	
Gofalwyr a Chynnal Tiroedd Canolog	Gwariant	58	Cyllideb ar gyfer gwaith cynnal tiroedd a gofalwyr sydd yn ychwanegol i'r gytundeb sydd wedi ei ddatganoli.
	Costau Canolog	1	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>59</u>	
Uned Cyfeirio Disgyblion (Canolfan Brynffynnon) - Cynradd	Gwariant	215	Darpariaeth ar gyfer plant cynradd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 3
	Costau Canolog	5	
	Incwm	(13)	
	Incwm - Ad-daliadau	(26)	
		<u>181</u>	
Ieithoedd Lleiafrifol	Gwariant	70	Darpariaeth ar gyfer addysg i blant tramor.
	Costau Canolog	1	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>71</u>	
Llwybrau Ni (Ty Gwair, Llanwnda)	Gwariant	180	Canolfan ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol dwys a chymhleth sydd tu hwnt i'r hyn y gall y ddarpariaeth gynhwysiad o fewn y prif lif ddygymod ag ef. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 3
	Costau Canolog	3	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	(40)	
		<u>143</u>	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)

(Parhad)

Cyfraniad Gwynedd tuag at Costau Swyddfa Consortia Gogledd Cymru	Gwariant Costau Canolog Incwm Incwm - Ad-daliadau	28 0 0 0	Cyfraniad yr awdurdod at waith y Swyddfa Consortiwm Gogledd Cymru.
		<hr/> 28	
Swyddfa'r Consortiwm (Gogledd Orllewin Cymru)	Gwariant Costau Canolog Incwm Incwm - Ad-daliadau	163 21 (140) (28)	Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar y cyd gyda chwech awdurdod addysg Gogledd Cymru. ar gyfer costau Cyd-lynydd y Consortiwm y Gogledd, Rheolwr busnes a Cymhorthydd Gweinydd
		<hr/> 16	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 2
Cymwysterau Proffesiynol Athrawon a Chymorthyddion	Gwariant Costau Canolog Incwm Incwm - Ad-daliadau	32 1 (22) 0	Cyllideb ar gyfer cymwysterau prifathrawon, athrawon a chymhorthyddion, ynghyd â datblygiadau eraill yn y maes.
		<hr/> 11	
Grant Trafaelwyr a Phersonau a Disodlwyd	Gwariant Costau Canolog Incwm Incwm - Ad-daliadau	24 0 (18) 0	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer disgyblion o deuluoedd teithwyr.
		<hr/> 6	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 2
Gwasanaethau Therapi Cerdd	Gwariant Costau Canolog Incwm Incwm - Ad-daliadau	9 0 0 0	Darpariaeth ar gyfer y gwasanaeth therapi cerdd, i ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol.
		<hr/> 9	
Gwasanaeth Llefrith yn yr Ysgolion	Gwariant Costau Canolog Incwm Incwm - Ad-daliadau	154 8 (154) 0	Darpariaeth llefrith I blant ysgolion cynradd. Llefrith am ddim I blant CA1 a ariennir gan Llywodraeth Cymru. Gwerthir llefrith am sybsidi I blant CA2 trwy grant gan Ewrop
		<hr/> 8	
Bwydlenni Iach	Gwariant Costau Canolog Incwm Incwm - Ad-daliadau	13 0 0 0	Darpariaeth ar gyfer bwydlenni iach yn ôl rheoliadau safonau bwyd Blas am Oes Llywodraeth Cymru. Y nod yw gwneud yn siŵr fod holl fwydlenni'n cynnig bwydydd cytbwys a maethlon fel rhan bwysig ac hanfodol o fywyd ysgol.
		<hr/> 13	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

**GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)
(Parhad)**

Rheolaeth a Gweinyddiaeth Arlwyath a Glanhau	Gwariant	207	
	Costau Canolog	145	Cost rheoli a gweinyddu'r Gwasanaethau Arlwyath a Glanhau.
	Incwm	0	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	(668)	Llawn Amser: 4
		<u>(316)</u>	
Gwasanaethau Arlwyath Ysgolion	Gwariant	4,973	Gwasanaeth Arlwyo 97 ysgol gynradd, 11 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig, yn ogystal â Chanolfan Brynffynnon a Llwybrau Ni, Ty Gwair.
	Incwm	(1,588)	
	Incwm - Ad-daliadau	(3,385)	
		<u>0</u>	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
			Rhan Amser: 354
Gwasanaethau Glanhau	Gwariant	1,774	
	Incwm	(84)	Gwasanaeth Glanhau a Gofalu mewn 96 ysgol gynradd, 9 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig.
	Incwm - Ad-daliadau	(1,690)	
		<u>0</u>	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
			Rhan Amser: 266 (Glanhau)
			Rhan Amser: 14 (Gofalu)
Gwasanaethau Cerdd Ysgolion	Gwariant	128	
	Costau Canolog	2	Darpariaeth tuag at ariannu Cwmni Cerdd William Mathias a cherddorfeydd sirol, a chronfa ar gyfer hyrwyddo gwaith y Gwasanaeth Cerdd.
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<u>130</u>	
Cynllun PESS	Gwariant	23	Cynllun Addysg Gorfforol a Mabolgampau Ysgolion ariennir gan Gyngor
	Costau Canolog	1	Chwaraeon Cymru. Prosiect ar lefel Consortia Gogledd Cymru hyd at Awst 2015.
	Incwm	(23)	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 1
		<u>1</u>	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)

(Parhad)

Cynllun POTENSIAL	Gwariant	57	Cynllun Anogwyr Dysgu mewn Ysgolion a ariennir trwy grant ERDF (Ewrop) <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 1
	Costau Canolog	8	
	Incwm	(57)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		8	
		<hr/>	
Grant Lleiafrifoedd Ethnig	Gwariant	98	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Disgyblion Lleiafrifoedd Ethnig.
	Costau Canolog	1	
	Incwm	(98)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		1	
		<hr/>	
Blas am Oes	Gwariant	105	Grant Llywodraeth Cymru i godi safonau maeth y mae disgyblion yn ei fwyta. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 2
	Costau Canolog	9	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		114	
		<hr/>	
Grant Datblygu Gwasanaeth Cwnsela	Gwariant	175	Amcan y grant yw cael darpariaeth cwnsela ar gyfer pob disgybl ysgol, gan roi'r hyder iddynt y caiff eu hanghenion eu deall a'u datrys. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 5 Rhan Amser: 1
	Costau Canolog	2	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		177	
		<hr/>	
Ffioedd All-Sirol Arbennig	Gwariant	1,172	Gwariant ar ddisgyblion Gwynedd yn mynychu ysgolion y tu allan i Wuned. Incwm o ddisgyblion yn mynychu ysgolion Gwynedd ond sy'n byw tu allan i Wuned.
	Costau Canolog	25	
	Incwm	(116)	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		1,081	
		<hr/>	
Addysg Bellach	Gwariant	105	Cyllideb ar gyfer yr Uned Addysg Bellach, sy'n cynnwys darpariaeth i fyfyrwyr. <i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i> Llawn Amser: 1 Rhan Amser: 1
	Costau Canolog	5	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		110	
		<hr/>	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)

(Parhad)

Uned Blynyddoedd Cynnar	Gwariant	16	Darpariaeth ar gyfer swydd Uwch Reolwr rhan amser , ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Plant
	Costau Canolog	0	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Incwm	0	Rhan Amser: 1
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		16	
		<hr/>	
Grantiau Meithrin	Gwariant	574	Darpariaeth ar gyfer addysg feithrin rhan amser i blant yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn
	Costau canolog	9	3 oed mewn sefydliadau heb fod yn ysgolion (cylchoedd meithrin a meithrinfeydd preifat).
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		583	
		<hr/>	
Grant y Gymraeg Mewn Addysg (Elfen heb fod yn ISB)	Gwariant	100	Grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg a ddefnyddir i ddarparu cyrsiau dwys yn y Gymraeg
	Costau Canolog	15	i fewnfudwyr ac i athrawon. Darperir cyllid am 5 Canolfan Iaith ynghyd â
	Incwm	0	Chyd-gysylltwyr iaith oddi fewn yr 13 dalgylch.
	Incwm - Ad-daliadau	0	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
		<hr/>	Llawn Amser: 9
		115	Rhan Amser: 2
		<hr/>	
Datblygiadau yn Maes Cymraeg	Gwariant	17	Darpariaeth ar gyfer datblygiadau yn y maes Cymraeg dan arweiniad y Pennaeth Addysg.
	Costau Canolog	7	
	Incwm	0	
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		24	
		<hr/>	
Grant RMIS - Capita One	Gwariant	28	Prosiect allweddol Llywodraeth Cymru i wella safonau addysgol trwy ddefnyddio meddalwedd
	Costau Canolog	0	cyson i'r chwech Awdurdod Gogledd Cymru
	Incwm	(28)	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	0	Llawn Amser: 2
		<hr/>	
		0	
		<hr/>	
Consortium Dysgu ol-16 Gwynedd a Môn	Gwariant	376	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Costau Canolog	13	Llawn Amser: 2
	Incwm	(376)	Rhan Amser: 1
	Incwm - Ad-daliadau	0	
		<hr/>	
		13	
		<hr/>	

ADDYSG**Cyllideb****2014/15****£'000****GWARIANT HEB FOD YN GYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB)****(Parhad)**

Prosiect Hyrwyddo Ansawdd Uwchradd	Gwariant	66	Cynllun yn sefydlu a gweithredu Consortiwm Dysgu ôl-16 Gwynedd a Môn
	Incwm	0	Ariennir trwy grant Ewropeaidd
	Incwm - Ad-daliadau	(66)	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
		<u>0</u>	Llawn Amser: 1
Grant Effeithlonrwydd Ysgolion - GEY (Elfen heb fod yn ISB)	Gwariant	308	Grant Llywodraeth Cymru i ysgolion wedi'i dargedu at helpu disgyblion o gefndir
	Costau Canolog	83	difreintiedig i gyflawni eu potensial ac i gyfrannu yn y ffordd orau bosibl
	Incwm	0	Tlodi Plant.
	Incwm - Ad-daliadau	0	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
		<u>391</u>	Llawn Amser: 9 Rhan Amser: 6
Rheolaeth a Gweinyddiaeth yr Adran Addysg	Gwariant	1,481	Darparu rheolaeth a gweinyddiaeth, gan gynnwys gwasanaeth Uned Cefnogi
	Costau Canolog	204	yr Ysgolion Cynradd.
	Incwm	(10)	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Incwm - Ad-daliadau	(492)	Llawn Amser: 29 Rhan Amser: 3
		<u>1,183</u>	
Trefniadaeth Ysgolion	Gwariant	667	<i>Nifer o staff yn y gyllideb 2014/2015:-</i>
	Costau Canolog	73	Llawn Amser: 5
	Incwm	0	Rhan Amser: 2
	Incwm - Ad-daliadau	(393)	
		<u>347</u>	
Costau Canolog y Gwasanaeth	Incwm - Ad-daliadau	(321)	Incwm ad-daliadau gan Ysgolion ar gyfer costau canolog trwy Cytundeb Lefel Gwasanaeth
		<u>(321)</u>	er enghraifft - Gwasanaeth Rheoli Banc ac Adnoddau Dynol
Gwasanaethau Arbenigol Addysg/ Cyd-bwyllgorau			
Cwmni Cynnal	Gwariant	196	cost gwasanaeth penodol
GwE	Gwariant	641	cost gwasanaeth penodol
Cyd bwyllgor ADY	Gwariant	750	cost gwasanaeth penodol
	Costau Canolog	42	
		<u>1,629</u>	

ADDYSG

Cyllideb

2014/15

£'000

**CYFANSWM - GWARIANT HEB FOD CYLLIDEB UNIGOL
YSGOLION (ISB)**

17,841

CYFANSWM NET CYLLIDEB ADDYSG

88,984

EITEMAU MEMORANDWM

Ad-daliadau Gwasanaethau Canolog	2,858	Ad-daliadau o gostau Adrannau Canolog, Adeiladau a Teleffon
Llai, Incwm Ad-daliad Gwasanaethau Canolog	(9)	Credyd Democratiaeth
	<u>2,849</u>	

CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG		
Cyfanswm ISB Uniongyrchol	67,621	
Cyfanswm ISB Canolig	3,522	
Cyfanswm Gwariant heb fod yn ISB	<u>17,841</u>	
Gwariant Net	<u>88,984</u>	

CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG		
